❖ Draw tua Bethlem

Draw uwch y ddaear mae cysgod y nos,
Ond yno mae golau un Seren dlos;
Draw uwch y ddaear mae lluoedd y Nef
Yn llawen gyhoeddi ei ddyfod Ef.

Draw yn y ddinas mor llawn ydyw'r tai,
Yn llety'r anifail mae'r addfwyn rai;
Draw yn y ddinas mae Joseff a Mair
A'u baban bach, Iesu, mewn gwely gwair.

Draw ar y bryniau mae'r noson yn fwyn
Ar dawel ffriddoedd y defaid a'r ŵyn;
Draw ar y bryniau mae'r gwylwyr yn syn
Wrth glywed newyddion yr angel gwyn.

Draw dros y twyni mae cwmni ar daith
Yn dilyn y Seren ar siwrnai faith;
Draw dros y twyni brenhinoedd sy'n dod
Ar araf gamelod i ganu ei glod.

Draw tua Bethlem mae toriad y wawr
Ac yno mae'r bore yn foliant yn awr;
Draw tua Bethlem daw'r lluoedd ynghyd
I weld ac addoli Ceidwad y byd.

W. Rhys Nicholas